

Polisi Grant Marwolaeth

Mehefin 2025

Cynnwys

Polisi Grant Marwolaeth	2
Meini Prawf Cymhwysedd.....	2
Buddiolwr Grant Marwolaeth	2
Os oes Ffurflen Mynegi Dymuniad wedi'i llenwi.....	3
Os oes Ffurflen Mynegi Dymuniad wedi'i llenwi, ond os yw un neu fwy o'r buddiolwyr wedi marw cyn i'r aelod farw	3
Os oes Ffurflen Mynegi Dymuniad wedi'i llenwi, ond gwyddys bod amgylchiadau'r aelod wedi newid	3
Os nad oes Ffurflen Mynegi Dymuniad wedi'i llenwi.....	3
Talu'r Grant Marwolaeth ar ffurf cyfandaliad i blentyn	3
Cyfrifo'r Grant Marwolaeth.....	4
Y weithdrefn ar gyfer talu'r Grant Marwolaeth ar ffurf cyfandaliad	4
Dogfennau Ategol:.....	5
Adolygu	5

Polisi Grant Marwolaeth

Mae Grant Marwolaeth ar ffurf cyfandaliad y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn fudd a roddir gan y cynllun i gynorthwyo buddiolwyr ei aelodau.

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r polisi, y meini prawf, a Grantiau Marwolaeth ar ffurf cyfandaliad a allai fod yn ddyledus o dan y canlynol:

- Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013: Rheoliad 40(2); 43(2) a 46(2)
- Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Buddion, Aelodaeth a Chyfraniadau) 2007: Rheoliad 23(2); 32(2) a 35(2)
- Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 1997: Rheoliad 38(1) a 155(4)
- Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 1995: Rheoliad E8

Mae'r polisi yn sicrhau bod y broses o dalu ac arfer disgresiwn yn cael ei chynnal yn deg, yn dryloyw ac mewn modd sy'n parchu amgylchiadau pob achos unigol.

Meini Prawf Cymhwysedd

Mae Grant Marwolaeth ar ffurf cyfandaliad yn daladwy os yw'r aelod, ar adeg ei farwolaeth:

1. o dan 75 oed, ac
2. wedi bod yn talu i'r cynllun ac wedi cyfrannu at Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol am o leiaf ddwy flynedd, neu
3. os oes ganddo bensiwn gohiriedig, neu
4. os oedd yn bensiynwr a adawodd y cynllun rhwng 1 Ebrill 1998 a 31 Mawrth 2008 ac a oedd yn derbyn ei bensiwn am lai na 5 mlynedd, neu
5. os oedd yn bensiynwr a adawodd y cynllun ar/ar ôl 1 Ebrill 2008 ac a oedd yn derbyn ei bensiwn am lai na 10 mlynedd

Buddiolwr Grant Marwolaeth

Mae rheoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn rhoi cyfrifoldebau a disgresiwn i Gyngor Sir Caerfyrddin, fel awdurdod gweinyddu Cronfa Bensiwn Dyfed, mewn perthynas â rhai agweddau ar weinyddu.

Gall aelodau'r cynllun enwebu unrhyw unigolyn, unigolion neu sefydliad i dderbyn y Grant Marwolaeth ar ffurf cyfandaliad drwy lenwi ffurflen Mynegi Dymuniad ynghylch y Grant Marwolaeth.

Os oes Ffurflen Mynegi Dymuniad wedi'i llenwi

Bydd y Tîm Pensiynau yn talu'r Grant Marwolaeth ar ffurf cyfandaliad yn unol â dymuniadau'r ymadawedig, fel y'u cofnodwyd ar y Ffurflen Mynegi Dymuniad.

Os oes Ffurflen Mynegi Dymuniad wedi'i llenwi, ond os yw un neu fwy o'r buddiolwyr wedi marw cyn i'r aelod farw

Bydd y Tîm Pensiynau yn talu'r Grant Marwolaeth ar ffurf cyfandaliad i'r buddiolwr neu'r buddiolwyr sy'n weddill, fel y'u cofnodwyd ar y ffurflen Mynegi Dymuniad.

Os oes mwy nag un buddiolwr ar ôl, bydd y Tîm Pensiynau yn penderfynu sut y dylid dosbarthu'r Grant Marwolaeth ar ffurf cyfandaliad rhwng y buddiolwyr fel ei fod yn adlewyrchu dymuniadau'r ymadawedig, fel y'u cofnodwyd ar y Ffurflen Mynegi Dymuniad.

Os oes Ffurflen Mynegi Dymuniad wedi'i llenwi, ond gwyddys bod amgylchiadau'r aelod wedi newid

Os oes gan y Tîm Pensiynau reswm da dros gredu bod amgylchiadau'r aelod ymadawedig wedi newid ers llenwi'r Ffurflen Mynegi Dymuniad, bydd y Ffurflen Mynegi Dymuniad yn cael ei datgan yn annyls a bydd y Grant Marwolaeth ar ffurf cyfandaliad yn cael ei dalu gan ddefnyddio disgresiwn y gronfa.

Os nad oes Ffurflen Mynegi Dymuniad wedi'i llenwi

- Bydd y Tîm Pensiynau yn talu'r Grant Marwolaeth ar ffurf cyfandaliad i bartner yr ymadawedig os oes pensiwn goroeswr yn cael ei dalu.
- Os nad oes partner sy'n goroesi, bydd y Grant Marwolaeth ar ffurf cyfandaliad yn cael ei dalu i ystâd yr ymadawedig ar ôl cyflwyno Grant Profiant neu Lythyrau Gweinyddu.
- Mae gan y Tîm Pensiynau ddisgresiwn i wneud taliadau Grant Marwolaeth ar ffurf cyfandaliad o lai na £5,000.00 o dan Ddeddf Gweinyddu Ystadau (Taliadau Bach) 1965. Dylai ffurflen indemniad gael ei chwblhau.

Talu'r Grant Marwolaeth ar ffurf cyfandaliad i blentyn

- Pan fo'r buddiolwr enwebedig o dan 18 oed ar adeg marwolaeth yr aelod, bydd y Tîm Pensiynau yn talu'r Grant Marwolaeth ar ffurf cyfandaliad i gronfa ymddiriedolaeth ar gyfer y buddiolwr.

Wrth arfer disgresiwn, bydd y tîm gweinyddu pensiynau yn ystyried talu'r Grant Marwolaeth ar ffurf cyfandaliad yn y drefn flaenoriaeth ganlynol:

- a) priod neu bartner sifil yr aelod, neu bartner oedd yn cyd-fyw ag ef
- b) plant yr aelod
- c) rhieni'r aelod
- d) brodyr a chwiorydd yr aelod
- e) cynrychiolydd personol yr aelod (os nad oes buddiolwyr ar gael)

Bydd penderfyniadau ar sail arfer disgresiwn yn cael eu gwneud fesul achos, gan ystyried yr holl amgylchiadau perthnasol.

Cyfrifo'r Grant Marwolaeth

I aelodau sy'n talu i'r cynllun: mae'r Grant Marwolaeth ar ffurf cyfandaliad dair gwaith cyflog pensiynadwy tybiedig blynyddol yr aelod.

I aelodau â phensiwn gohiriedig a adawodd y cynllun ar/cyn 31 Mawrth 2008: mae'r Grant Marwolaeth ar ffurf cyfandaliad dair gwaith pensiwn blynyddol yr aelod.

I aelodau â phensiwn gohiriedig a adawodd y cynllun ar/ar ôl 1 Ebrill 2008: mae'r Grant Marwolaeth ar ffurf cyfandaliad bum gwaith pensiwn blynyddol yr aelod.

I bensiynwyr a adawodd y cynllun rhwng 1 Ebrill 1998 a 31 Mawrth 2008: mae'r Grant Marwolaeth ar ffurf cyfandaliad bum gwaith pensiwn yr aelod ar ôl didynnu unrhyw bensiwn a dalwyd eisoes.

I bensiynwyr a adawodd y cynllun ar/ar ôl 1 Ebrill 2008: mae'r Grant Marwolaeth ar ffurf cyfandaliad ddeg gwaith pensiwn yr aelod ar ôl didynnu unrhyw bensiwn a dalwyd eisoes.

Yn achos aelod sy'n talu i'r cynllun ac sydd â phensiwn gohiriedig neu sy'n bensiynwr, dim ond un Grant Marwolaeth ar ffurf cyfandaliad sy'n daladwy, a dyma'r mwyaf o'r Grantiau Marwolaeth a gyfrifwyd.

Y weithdrefn ar gyfer talu'r Grant Marwolaeth ar ffurf cyfandaliad

Dylid dilyn y weithdrefn ganlynol ar gyfer talu'r Grant Marwolaeth ar ffurf cyfandaliad:

1. Dylai'r perthynas agosaf neu'r cynrychiolwyr cyfreithiol roi gwybod i ni am farwolaeth yr aelod cyn gynted â phosibl.

2. Bydd y Tîm Pensiynau yn rhoi ffurflen hawlio Grant Marwolaeth ar ffurf cyfandaliad a nodiadau cyfarwyddyd i'r buddiolwyr.
3. Dylai'r buddiolwyr lenwi a dychwelyd y ffurflen hawlio ynghyd ag unrhyw ddogfennau ategol y gofynnwyd amdanynt.
4. Bydd y Tîm Pensiynau yn gwirio'r hawliad ac yn gwneud y taliad.
5. Os na chaiff y Grant Marwolaeth ar ffurf cyfandaliad ei dalu o fewn dwy flynedd, gan ddechrau ar ddyddiad marwolaeth yr aelod neu'r dyddiad y gellid disgwyl yn rhesymol i'r Tîm Pensiynau fod yn ymwybodol o farwolaeth yr aelod, rhaid ei dalu i'r ystâd a gall fod taliad treth.

Dogfennau Ategol:

Mae'r dogfennau ategol sy'n ofynnol i wirio'r hawliad yn cynnwys y canlynol:

- Tystysgrif geni'r buddiolwr
- Pasbort dilys
- Ffurflen Mynegi Dymuniad
- Grant Profiant
- Llythyrau Gweinyddu

Nid yw'r Tîm Pensiynau yn gallu talu Grant Marwolaeth ar ffurf cyfandaliad heb y dogfennau ategol angenrheidiol.

Adolygu

Cafodd y Polisi Grant Marwolaeth ei gymeradwyo gan Bwyllgor Cronfa Bensiwn Dyfed ym mis Mehefin 2025.

Bydd y Pwyllgor yn adolygu'r polisi hwn, yn ôl yr angen, yng ngoleuni newidiadau i Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol neu ddeddfwriaeth berthnasol yn y dyfodol. Bydd hefyd yn cael ei adolygu bob tair blynedd a'i ddiweddarau yn ôl yr angen. Bydd y polisi yn cael ei adolygu nesaf ym mis Mehefin 2028.